



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Newyddion y Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)

RHIFYN 3: Tachwedd 2023 - Ionawr 2024

Croeso i drydydd rhifyn ein cylchlythyr chwarterol.

Ar y tudalennau hyn, rydym yn gyffrous i rannu diweddariadau, mewnwelediadau, a newyddion am waith y Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r cylchlythyr chwarterol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am fentrau newydd, cyflawniadau lleol, a digwyddiadau. Diolch am fod yn rhan o'n cymuned. Gobeithiwn y bydd y rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth ac yn eich ysbrydoli.



I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i
Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth (NCNs) -
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (nhs.wales), neu anfonwch
e-bost at:
abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk

Cynnwys:

Tudalen 1

Cyflwyniad

Tudalen 2

NCN Blaenau Gwent

Tudalen 3

NCN Caerffili

Tudalen 4

NCN Sir Fynwy

Tudalen 5

NCN Casnewydd

Tudalen 6

NCN Torfaen

Tudalen 7

Cydweithrediaethau

Proffesiynol

Tudalen 8

Diweddariad Cyfathrebu ac

Ymgysylltu yr NCN

Mae NCNs yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol at ei gilydd, ac maent yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 40,000 a 60,000 fel arfer.

Mae Meddygon Teulu, Ymarferwyr Deintyddol ac Ymarferwyr Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsio Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP), a Gofal Cymdeithasol yn cyfuno eu gwybodaeth fanwl a'u harbenigedd.

Mae gweithio fel NCN yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynyn well er mwyn asesu anghenion y boblogaeth, nodi blaenoriaethau gwella gwasanaethau a datblygu atebion lleol i hyrwyddo lles unigolion a chymunedau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Blaenau Gwent

Mae Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn Nhredeg ar agor i Gleifion



Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod Canolfan Iechyd a Lles Bevan, sydd werth £19m, yn Nhredeg bellach ar agor i gleifion.

Mae Canolfan Iechyd a Lles Bevan wedi'i hadeiladu ar hen safle Ysbyty Cyffredinol Tredegar ac mae wedi'i lleoli yn nhref enedigol Aneurin Bevan, sylfaenydd y GIG.

Meddai Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, "Mae Canolfan Iechyd a Lles Bevan yn elfen sylfaenol o'r model dyfodol clinigol ym Mlaenau Gwent, gan ei bod yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu ystod eang o wasanaethau yn nes at adref ar gyfer y gymuned leol"

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfan Iechyd a Lles Bevan, ewch i: <https://abuhb.nhs.wales/clinical-futures/developments/the-bevan-health-and-well-being-centre/>

Noson Rhwydwaith Blaenau Gwent

Nos Fawrth y 24ain o Hydref mynychodd tîm ardal Blaenau Gwent y Noson Rhwydwaith yn ICC Blaenau gyda'r holl arweinwyr/rheolwyr. Roedd hwn yn gyfle gwych i gael diweddariad ar unrhyw newyddion a rhannu syniadau o fewn y Sector Gofal Plant. Roedd yno siaradwyr o'r Tîm yn ogystal â sefydliadau sy'n cefnogi'r sector. Cyfeiriodd tîm yr ardal at pa mor bwysig yw ein bod ni fel cymunedau yn gwneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn ein hunain a'n gilydd rhag y ffliw. Mae'r brechlyn ffliw yn fodd o amddiffyn plant ac eraill rhag salwch sy'n gysylltiedig â'r ffliw, a all fod yn ddifrifol - hyd yn oed i blant sy'n iach.

Hybiau Cymunedol

Yn hydref 2022 sefydlwyd Rhwydwaith Hybiau Lles Cymunedol Blaenau Gwent gan dîm Rhwydwaith Lles Integredig Blaenau Gwent.

Gwahoddwyd cynrychiolaeth o adeiladau cymunedol ar draws trefi Brynmawr a Thredegar i ymuno.

Roedd y nod o ddod yn rhan o'r rhwydwaith hwb llesiant cymunedol yn bedwarplyg:

- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau gydag adeiladau cymunedol eraill yn Nhredegar
- Hyrwyddo gwybodaeth lles yn y lleoliad
- Galluogi gwirfoddolwyr yn y lleoliad i feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ledaenu gwybodaeth am les i bobl sy'n defnyddio'r adeilad
- Rhoi adborth ar farn aelodau'r gymuned ynghylch bylchau o ran gwasanaethau a chymorth, er mwyn mynd i'r afael â'r rhain a gwella lles yn nhrefi Brynmawr a Thredegar

Bellach mae 23 o adeiladau cymunedol yn aelodau o'r rhwydwaith. O ganlyniad, mae nifer o weithgareddau cymunedol wedi cael eu sefydlu. Mae sesiynau paned a chwmni yn cael eu cynnal yn 12 o'r hybiau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



Caerffili

Presgripsiynu Cymdeithasol Caerffili

Yn dilyn rhyddhau'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol mae Ardal Caerffili yn gyrru hyn yn ei flaen ac yn uno rhaglenni a mentrau ar draws ein partneriaid.



Ar hyn o bryd mae NCNs mewn partneriaeth wedi ariannu a chefnogi ehangu'r Cysylltwyr Lles Cymunedol ar draws y fwrdeistref ac wedi'u halinio â phractisau meddygon teulu. Byddant yn darparu cefnogaeth a chngor i oedolion a'u teuluoedd er mwyn gwella eu lles a mwynhau bywyd mwy annibynnol yn eu cymunedau eu hunain gan atal arwahanrwydd cymdeithasol. Bydd y Cysylltwyr Lles Cymunedol yn defnyddio cefnogaeth ac yn ehangu gwytnwch er mwyn hybu annibyniaeth yn yr hirdymor. Byddant yn gweithio gyda thrigolion er mwyn dod o hyd i atebion priodol i'w hanghenion cymhleth, gan adeiladu ar y model presennol tra'n symud at ddull newydd o adeiladu cymunedau gwydn.

Bydd y Cysylltwyr Lles Cymunedol yn parhau i gryfhau cysylltiadau gwaith a chefnogi'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud gan Rwydweithiau Lles Integredig Caerffili / CWTSH, Caerffili Cares, NCNs a'r sector gwirfoddol. The Community Wellbeing Connectors will continue to strengthen working links and support the good work already being undertaken by the Caerphilly Integrated Wellbeing Networks / CWTSH, Caerphilly Cares, NCNs and voluntary sector

Wythnos Diogelu - Cefnogaeth Caerffili

Mae gan bob plentyn ac oedolyn ym Mwrdeistref Caerffili yr hawl i fyw mewn cymdeithas ddiogel, yn rhydd rhag trais, ofn, cam-drin, bwllo neu wahaniaethu ac mae gennym ni i gyd ran i'w chwarae er mwyn cyflawni hynny. Mae'r Wythnos Diogelu Genedlaethol yn wythnos bwysig yn y calendr. Daw partneriaid aml-asiantaeth at ei gilydd i ddysgu am arfer gorau a rhannu gwybodaeth, gan danlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu.

Os oes unrhyw bryderon am blentyn, person ifanc neu oedolyn agored i niwed, gallwch roi gwybod am bryderon i:

Oedolion: 0808 100 2500 / IAAADULTS@caerphilly.gov.uk

Plant: 0808 100 1727 / contactandreferral@caerphilly.gov.uk

Gwella gyda Natur

Mae'r rhaglen Rhwydwaith Llesiant Integredig (IWN) yng Nghaerffili ar y cyd â Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth Caerffili (NCNs) wedi datblygu rhaglen Lles Natur (presgripsiynu gwyrdd).

Weithiau gelwir hybu a chyfeirio pobl at weithgareddau megis cerdded, ymwybyddiaeth ofalgar ym myd natur, grwpiau garddio a rhandiroedd, adfer cynefinoedd, ymysg pethau eraill, yn bresgripsiynu gwyrdd, a chaiff hyn ei weld fel rhan o ddull presgripsiynu cymdeithasol ehangach. Gall meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol ac eraill atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol at y gweithgareddau hyn, ac yn bwysicach, gall poblddod o hyd i'r cyfleoedd eu hunain neu gael eu cyfeirio yn y gymuned.

Yn seiliedig ar beilot llwyddiannus, dechreuodd y rhaglen Lles Natur ym mis Mai 2023 gyda chefnogaeth NCN Caerffili yn ogystal â CBS Caerffili a Cymdeiths Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO). Mae cydlynnydd yn gweithio ar y rhaglen ac mae ganddynt gronfa fechan ar gyfer gweithgareddau newydd. Mae tua 50 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio neu wedi atgyfeirio eu hunain hyd yn hyn. Mae'r rhaglen wedi cysylltu'n llwyddiannus â rhai gwasanaethau arbenigol megis y rhaglenni Adsefydlu'r Ysgyfaint ac Adsefydlu Cardiaidd ac wedi cefnogi'r tîm Adfer Niwrolegol Cymunedol gyda chleientiaid.



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Sir Fynwy

Beth Sy'n Digwydd yn Sir Fynwy?

'Hawl i holi' Dydd Mercher



Gofynnwch y cwestiynau yr ydych wedi bod ar dân i'w gofyn:

- Beth yw gofal personol a pha mor personol y mae'n mynd?
- Rwy'n poeni am ddieithryn yn fy helpu, sut mae goresgyn hynny?
- A fydd pobl yn fy ngweld yn noeth?

Dydd Mercher o 09:30am – 1.00pm yng Nghanolfan Gwybodaeth a Chyngor y Caban, Ysbyty Cymunedol Cas-gwent
e-bost-Community@newport.homeinstead.co.uk

Together Works, Cil-y-coed

Mae TogetherWORKS yn hyb cymunedol sy'n anelu at gael ei yrru gan y gymuned. Mae'n cynnig lluo o weithgareddau a grwpiau, yn seiliedig ar angen lleol, er mwyn lleihau arwahanrwydd ac unigrwydd, annog pobl i ddod at ei gilydd i rannu sgiliau a gwybodaeth.

Wedi'i leoli yn Woodstock Way, Cil-y-coed NP26 5DB

Ewch i: <https://www.facebook.com/togetherworks.caldicot> am fanylion a diweddariadau.

Prosiectau/Gwasanaethau yn Sir Fynwy a ariennir gan Gynllun Grantiau Bach yr FRIF a'r Gronfa Gwydnwch y Gaeaf

Mae cyllid RIF a Gwydnwch y Gaeaf wedi helpu llawer o brosiectau ar draws y Fwrdeistref, gan gynnwys: Top Stop Youth, Cas-gwent; Inside Out - Inside Out; sesiwn Artful Wellness yng Nghas-gwent (info@inside-out-cymru.org); Basecamp Cooperative (basecamp-chepstow.co.uk), Mind Sir Fynwy - prosiect 'Hunangymorth â Chymorth i Bobl Ifanc'; Canolfan Bridges - 'Equine Connections' prosiect lachau a Thwrf ar gyfer Pobl Ifanc ag anghenion ychwanegol, Menter Lles y Gaeaf Sir Fynwy a Beic Trishaw; Disability Advice Project - DAP CYMRU; Sporting Memories Foundation - Caldicot RFC Sporting Memories Club | Sporting Memories; Canolfan Palmer - Canolfan Gymunedol Palmer, Cas-gwent (palmercentre.org.uk); Bulwark Senior Citizen Club / Clwb Cymunedol Cromwell Road - prosiect 'Cromwell Cwtch' a Growing Space - Sir Fynwy - Growing Space

Cyfarfod Cyngor Tref Cas-gwent

Roedd staff Sir Fynwy wrth eu bodd yn croesawu Cyngorwyr Tref Cas-gwent i Ysbyty Cymunedol Cas-gwent.

Hwyluswyd digwyddiad y bore gan Trish Edwards, Pennaeth

Gwasanaeth Ardal Sir Fynwy ac roedd yn cynnwys cyflwyniadau gan arweinydd NCN De Sir Fynwy a Meddyg Teulu, Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Nyrs Ymgynghorol Mân Anafiadau, Ymgynghorydd Eiddilwch, a Rheolwr Gwasanaethau Integredig.

Roedd yn ddigwyddiad rhannu a dysgu gwybodaeth gyda llawer o gwestiynau a gwybodaeth. Roedd y digwyddiad yn gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorwyr am yr holl wasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn yr ysbyty a'r gymuned gyfagos.



CHEPSTOW
TOWN COUNCIL

Cafodd y Cyngorwyr daith dywys o amgylch yr ysbyty ar ddiwedd y bore a chafwyd adborth cadarnhaol. Mae'r Tîm Sir Fynwy yn gobeithio cynnal y digwyddiad difyr hwn eto yn y dyfodol a chynllunio ar gyfer mabwysiadu'r un dull ar gyfer Cyngorwyr mewn ardaloedd eraill yn Sir Fynwy hefyd.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Casnewydd

Merched Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (BAME) - Sesiynau Dŵr Cymunedol

Mae NCN Casnewydd yn falch o barhau i ariannu sesiynau ymarfer corff yn y dŵr i fenywod o'r gymuned BAME. Cyflwynir y sesiwn gan un o hyfforddwyr y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS).

Cynhelir y sesiynau ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd bob dydd Mercher am 2pm a gall cleientiaid gael atgyfeiriad ar gyfer 12 wythnos yn unig. Anogir y merched i gymryd rhan yn y grŵp fel modd o ryngweithio cymdeithasol hirdymor, yn ogystal â gwrs ymarfer corff. Mae cyfle iddynt gwrdd am sesiwn coffi ar ôl y dosbarth yn y caffi



Gwaith Partneriaeth ar ei Orau - IWN Casnewydd

Cefnogir y Rhwydwaith Lles Integredig (IWN) yng Nghasnewydd gan amrywiaeth o bartneriaid megis Cyngor Dinas Casnewydd, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Cymunedau Oed-Gyfeillgar, Newport City Homes, Pobl, Casnewydd Fyw, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Gofal Sylfaenol, cynrychiolwyr busnesau lleol ac arweinwyr cymunedol. Gan weithio mewn modd sy'n seiliedig ar le, rydym yn dod at ein gilydd yn Ringland bob deufis i rannu gwybodaeth a mewnwleidiad. Gan gydweithio trwy ddefnyddio dull amlddisgyblaethol, mae'r rhwydwaith yn defnyddio cryfderau ac adnoddau pob partner, gan anelu at ddeall a gwella iechyd, lles, darpariaeth gymunedol a hygyrchedd gwasanaethau er budd y gymuned



Canolfan Iechyd a Lles 19 Hills, Ringland

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo'n gyflym. Mae'r ffrâm ddur bellach wedi'i chwblhau, mae'r lloriau concrit wedi'u gosod ac mae'r gwaith to wedi dechrau. Bydd hyn yn caniatáu i waith mewnol ddechrau.

Mae cylchlythyr diweddaraf Partneriaeth Ringland a Kier, sy'n cynnwys diweddariadau am Ganolfan Iechyd a Lles 19 Hills a datblygiad ehangach Ringland, ar gael i'w darllen ar ein gwefan: [Cylchlythyr Rhagfyr Ringland \(nhs.cymru\)](https://nhs.uk/news/2023/12/19-hills-health-hub/)

abuhb.nhs.wales/files/development-newsletters/newport-east-newsletter-edition-4-dec-2023-v4-pdf/

Ffeiriau Iechyd ym Mosgiau Casnewydd

Mae dwy ffair iechyd lwyddiannus wedi'u cynnal, y cyntaf ar y 18fed o Dachwedd ym Mosg Canolog Casnewydd a'r ail ar yr 20fed o Ionawr yn MASJID a Chanolfan Gymunedol IQRA.

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Muslim Doctors Cymru yn bresennol a rhoddwyd ffocws ar Clefyd Fasgwlaidd Cardio (CVD), sgrinio a chynghor ar Hepatitis, cynghor iechyd, brechiadau i oedolion rhag y fflw a Covid-19, imiwneiddiadau plant, gwybodaeth am frechlynnau, cynghor ar sgrinio'r boblogaeth a Gwneud y Dewis Cywir





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Torfaen

Ail-lansio Tîm Asesu Clinigol Torfaen ar gyfer Cartrefi Gofal (CATCH).

Mae'n bleser gennym eich hysbysu y bydd gwasanaeth CATCH Torfaen yn cael ei ail-lansio ddydd Mawrth y 6ed o Chwefror 2024. Mae CATCH yn cefnogi practisau meddygon teulu ym mwrdeistref Torfaen i ddarparu lefel uwch o ofal iechyd i'r cleifion hynny sy'n byw mewn cartrefi nyrsio neu gartrefi gofal preswyl. Gan weithio ar y cyd â staff cartrefi gofal ac ochr yn ochr â'r timau amlddisgyblaethol cymunedol ehangach, mae nyrsys CATCH yn cwblhau asesiadau cynhwysfawr ar gleifion, yn atgyfeirio yn brydlon, ac yn trafod dymuniadau gofal ymlaen llaw gyda phreswylwyr a'u teuluoedd, gyda'r nod o sicrhau'r gofal cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir.



Diolch gan Wasanaeth Gwaed Cymru i NCN Torfaen

"Roeddwn i eisiau estyn allan i ddathlu sut mae sesiwn rhoi gwaed gyntaf y flwyddyn Pont-y-pŵl wedi bod. Dyma'r tro cyntaf i ni gael sesiwn rhoi gwaed yn Neuadd Bentref Little Mill ac rwy'n falch o rannu ffigurau'r sesiwn :-

- Mynychodd 90
- Casglwyd 70 o roddion
- 6 Rhoddwr Newydd!!

Roeddem yn meddwl mai 4 o roddwyr newydd fyddai'n rhoi gwaed yn ystod y sesiwn hwn, felly rydym nid yn unig wedi cyrraedd y targed hwnnw ond, wedi curo'r targed hwnnw o 2, sy'n wych. Rydym bob amser yn ceisio recriwtio mwy o roddwyr i'n panel achub bywyd, felly diolch i chi am ein helpu i rannu'r neges fel y gallwn dderbyn y rhoddion hyn sy'n achub bywydau."

Emily Francis

Cydgysylltydd Ymgysylltu â Rhoddwyr

Donor Engagement Coordinator

Gwasanaeth Gwaed Cymru | Welsh Blood Service



Tasty not Wasty

Mae Tasty Not Wasty yn gwmni buddiant cymunedol sydd wedi'i leoli yn Llanyrafon, Cwmbrân. Mae'r cwmni'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac mae'n casglu bwyd dros ben o archfarchnadoedd 6 diwrnod yr wythnos. Ar Noswyl Nadolig, sefydlir canolfannau dosbarthu ar draws y sir. Eleni cefnogwyd y prosiect gan Swyddog Cynnwys y Gymuned Torfaen. Mae'r rhwydweithiau IWN wedi ehangu yn ystod 2023 ac roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu cefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed drwy weithio gydag Ymwelwyr Iechyd i atgyfeirio rhai o'n teuluoedd mwyaf difreintiedig.

Mae llwyddiant y prosiect hwn yn golygu bod gan gyfanswm o 10 teulu, 28 o blant anrhegion i'w hagor ar ddydd Nadolig. Mae hefyd yn golygu bod ein gweithwyr iechyd proffesiynol bellach yn gwybod ble i atgyfeirio teuluoedd i gael cymorth yn y gymuned. Nid cael plant a theuluoedd hapus ar ddiwrnod Nadolig yn unig y mae hyn yn ei olygu, mae hyn hefyd yn cefnogi lles ac iechyd meddwl, ac yn cymryd ychydig o bwysau oddi ar ar ein teuluoedd ar adeg o'r flwyddyn sy'n gallu achosi llawer iawn o straen.



Cydweithrediadau Proffesiynol

Mae Mentrau Cydweithredu Proffesiynol (PCs) yn rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol sy'n rhannu arbenigedd, sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu sgiliau unigryw i asesu anghenion y boblogaeth yn yr ardal y maent yn gweithio ynddi.

Mae'r Cydweithrediadau Proffesiynol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r meysydd:

- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs)
- Nyrsio Cymunedol
- Deintyddol
- Meddygaeth Gyffredinol
- Optometreg
- Fferylliaeth

Mae llawer o waith caled wedi'i wneud ar draws pob Bwrdeistref i sefydlu cynrychiolwyr Cydweithredu Proffesiynol. Bydd y mentrau cydweithredol yn casglu gwybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol lleol er mwyn mapio darpariaeth gwasanaeth, nodi bylchau a datblygu yn erbyn anghenion.

Cydweithrediad Nyrsio Proffesiynol Torfaen

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Cydweithredol Nyrsio Torfaen ddydd Iau y 9fed o Dachwedd ym Mron Afon. Roedd yn llwyddiant ysgubol. Daeth 27 o bobl i'r cyfarfod o Timau Adnoddau Cymunedol (CRT), Cyflym, Ysbyty Cymunedol, Nyrsio Arbenigol (Imiwneiddiadau, Anadlol, Iechyd Rhywiol, Gwasanaeth Cynhwysiant, Ymweld â'r Cartref, Iechyd Meddwl, CATCH, a phractisiau meddygon teulu. Mae dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer 2024. Mae hyn yn hynod gyffrous oherwydd ein bod yn codi proffil a llais nyrsys a nyrsio yn gyffredinol.



Cydweithrediaeth Broffesiynol Optometreg Sir Fynwy

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar yr 20fed o Dachwedd ac roedd yn ddigwyddiad Gogledd a De ar y cyd i "lansio" y gydweithrediaeth Optometreg. Mae Helen Tilley, Perchennog ac Optometrydd Monnow Eyecare Trefynwy yn falch o arwain Cydweithrediaeth Broffesiynol Optometreg Gogledd Sir Fynwy.

Mae Jaclyn Pugh, arweinydd Optometreg yr NCN ar gyfer De Sir Fynwy, yn optometrydd sy'n presgripsiynu annibynnol yn The Optical People yng Nghas-gwent. Dywedodd Jaclyn, "Mae cymaint y gellir ei gyflawni mewn practisau optometreg cymunedol nad yw cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ymwybodol ohono. Rwy'n gobeithio y bydd perthnasoedd cryfach, gan ddefnyddio NCN's, yn helpu i ledaenu'r wybodaeth hon ac yn arwain at ofal mwy lleol ac effeithlon i gleifion."

Newidiadau i Wasanaethau Gofal y Llygad Brys

Bellach gall cleifion sydd angen gofal y llygad brys gael eu cyfeirio at unrhyw Optegydd, gan fod pob Optometrydd bellach wedi'i achredu gan WGOS i ddarparu gwasanaeth gofal y llyga brys.

Mae Catherine McNamara, Ymarferydd Gofal Sylfaenol a Chynghorydd Optometrig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn esbonio mwy yn y [fideo byr hwn](#).



Cyfathrebu ac Ymgysylltu yr NCN

Fideo Recriwtio Fferyllfeydd Cymunedol Newydd

Mae fideo fferylliaeth gymunedol newydd wedi'i ychwanegu at ymgyrch recriwtio beilot Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Gyda bylchau wedi'u nodi o ran rolau ar draws gwasanaethau fferylliaeth gymunedol, mae'r fideo newydd yn amlygu'r pethau cadarnhaol am weithio fel Fferyllfeydd Cymunedol a Thechnegydd Fferylliaeth.

Mewn ymateb i anghenion gofal iechyd cynyddol ein cymuned, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau hygyrchedd a gwasanaethau gofal sylfaenol o ansawdd uchel. Sir Fynwy yw'r ardal gyntaf i gynnal ymgyrch recriwtio benodol a lleol ac os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cael ei chyflwyno ar draws holl ardaloedd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN) y Bwrdd Iechyd.

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â diddordeb a darpar ymgeiswyr ddysgu mwy am yr ymgyrch, clywed gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol presennol ac archwilio cyfleoedd gyrfa trwy fynd i:

<https://abuhb.nhs.wales/healthcare-services/primary-care-and-community-recruitment/>

Ar gyfer practisau a gwasanaethau sydd am recriwtio, mae pecyn asedau ymgyrchu wedi'i greu i helpu i hysbysebu swyddi: [Ymgyrch Recriwtio \(Peilot\) - banc asedau \(sharepoint.com\)](#)

[Gellir gweld fideo'r ymgyrch yma](#)



Lansio Canllaw Iechyd Gwent

Mae Canllaw Iechyd Gwent wedi'i gynllunio i gynorthwyo trigolion Gwent i ddefnyddio ein system gofal iechyd lleol yn effeithlon.

Mae'r adnodd ar-lein yn cynnig cyngor ar ble i fynd am ystod eang o bryderon iechyd a lles yn ardal Gwent, o salwch ac anafiadau sy'n peryglu bywyd, i anawsterau iechyd meddwl a mân anhwylderau.

Gallwch weld y canllaw ar-lein drwy glicio ar y ddolen isod

[Canllaw Iechyd Gwent - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(nhs.wales\)](#)



Fideos NEWYDD i Hyrwyddo Gwasanaethau Fferylliaeth

Mae dau fideo newyddion wedi'u cynhyrchu i godi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Atal Cenhedlu a'r Gwasanaeth Profi a Thrin Dolor Gwddf mewn fferyllfeydd cymunedol.

Mae'r ddau fideo a rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn ar gael yn [Fferyllfeydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(nhs.wales\)](#)

